# Agenda

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mawrth 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cynghorwyr:

---

| **Eitem** | | **Wardiau Dan Sylw** |
|---|---|---|
| 1 | Question to the Cabinet Member for City Services (Deputy Leader): 2021/5 - Gorchmynion Terfyn Cyflymder 20 MYA Dros Dro | |

**Cynghorydd M. Kellaway:**

Rwy'n cefnogi 20mya mewn egwyddor, ond a ydych yn cytuno y dylai ardal/ffyrdd gwledig fod wedi bod yn rhan o leiaf o'r treial hwn o ystyried bod damweiniau ffyrdd yn fwy tebygol o fod yn angheuol mewn ardaloedd gwledig.
Os nad ydych, pam?

**Dirprwy Arweinydd Roger Jeavons:**

Bwriad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Gynaliadwy Leol mewn Ymateb i Covid 19 oedd mynd i'r afael â dau bryder yn ymwneud â thrafnidiaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y pandemig. Gallu cerddwyr a beicwyr i ymbellhau'n gymdeithasol o fewn amgylchedd y briffordd a chynnydd posibl yn y defnydd o geir.

Mae'r lle sydd ar gael ar droedffyrdd a llwybrau a rennir mewn ardaloedd trefol yn aml yn annigonol i ganiatáu pellteroedd pasio sy'n cydymffurfio. Mae pwysau ychwanegol hefyd ar y lle sydd ar gael yn sgil ciwiau y tu allan i siopau ac mewn safleoedd bws ac ati.

O ganlyniad, mae cerddwyr a beicwyr yn aml yn cael eu gorfodi i gamu neu seiclo i'r lôn gerbydau er mwyn osgoi mynd heibio'n agos. Mae hyn yn arbennig o bryderus gyda defnyddwyr sydd ag anawsterau symudedd a phlant ifanc.

Yn ogystal, gallem weld hyd yn oed mwy o ganrannau o deithiau’n digwydd mewn ceir yn y dyfodol oni bai ein bod yn gwneud strydoedd yn amgylchedd mwy croesawgar ar gyfer beicio a cherdded fel dulliau teithio amgen

Person cyswllt: ,
Ffôn:
E-bost:Cabinet@newport.gov.uk
Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified

Dyrannwyd yr arian i nifer o ardaloedd y mae nifer fawr o ymwelwyr yn eu defnyddio, er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddion ymbellhau cymdeithasol, gostwng dibyniaeth ar geir a gwella ansawdd aer.

Mae llawer o ardaloedd o'r ddinas nad ydynt wedi'u nodi’n rhan o'r fenter hon, gan gynnwys aneddiadau gwledig ac ardaloedd trefol

O ran ffyrdd gwledig, nid oes gan lawer ohonynt droedffyrdd a phan fo troedffyrdd ar gael, nid yw ymbellhau cymdeithasol yn broblem gan nad oes llawer o bobl yn eu defnyddio.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylid cyflwyno terfyn cyflymder cenedlaethol o 20mya fel mater o drefn ar gyfer ardaloedd preswyl yng Nghymru cyn gynted â phosibl, gyda dyddiad targed o Ebrill 2023 i’r newid yn y gyfraith ddod i rym. Bydd hyn yn berthnasol i ardaloedd preswyl trefol a gwledig ledled y ddinas